

# PROSIECT TREFTADAETH NATURIOL FfCSYM-CYMRU I GADW, GWARCHOD A PHLANNU COED TREFOL



## Llyfryn Adroddiad ar y Prosiect

## Mis Medi 2017 – Mawrth 2020



heritage treftadaeth
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

the WI INSPIRING WOMEN

YSBRYDOLI MERCHED SyM



# Cyflwyniad - Mair Stephens, Cadeirydd FfCSyM-Cymru

Drwy gydol ein hanes 105 o flynyddoedd, mae SyM wedi bod yn ymwybodol bod y dewisiadau a wnawn mewn bywyd yn siapio'r dreftadaeth yr ydym yn ei gadael. Fel aelodau o SyM rydych chi'n argyhoeddedig o hyd bod angen inni fod yn gyfrifol am ein gweithredoedd a bod gennym ni i gyd gyfrifoldeb personol tuag at y blaned.



O'r athroniaeth hon y ganwyd y 'Prosiect Treftadaeth Naturiol i Gadw, Gwarchod a Phlannu Coed Trefol' ac rwy'n falch iawn o fod wedi cadeirio ei Bwyllgor Llywio. Bu modd cynnal y prosiect diolch i grant o £48,100 oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae wedi cynnwys aelodau o bob rhan o Gymru.

Deilliodd y prosiect o bryder aelodau ynghylch y bygythiad mae newid hinsawdd yn ei achosi i'n cynefinoedd naturiol, a'r heriau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn debyg o'u hetifeddu: planed gynhesach a mwy caotig. Un o'r llu o bryderon oedd gan yr aelodau oedd colli coed trefol.



Mae coed yng nghanol trefi ac ar strydoedd prysur – a elwir 'coridorau coetirol' – yn dod â buddion llawer mwy i bobl ac i fywyd gwyllt na phe baen nhw allan yng nghefn gwlad anghysbell. Mae'r 'goedwig drefol' hon yn ein cysylltu â natur. Mae ymchwil yn dangos ei bod yn gwella iechyd a lles a chydlyniant cymunedol, yn ogystal â hybu ymarfer corff, gostwng lefelau troseddau a hyd yn oed rhoi hwb i'n heconomi.

Mae bywyd yn well gyda choed o'n cwmpas. Maen nhw'n cael gwared ar lygredd aer, yn dal miliynau o litrau o ddŵr glaw, yn dal ac yn storio carbon o'r atmosffer ac yn helpu i liniaru cynhesu gormodol. Ond mae coed o dan fygythiad. Mae adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru 'Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru' yn dangos bod Cymru'n colli coed trefol ar raddfa sy'n peri pryder. Mae canran syfrdanol o 73 y cant o ardaloedd trefol wedi colli coed ers 2010, a rhwng 2009 a 2013, roedd gan 159 o drefi dystiolaeth o golli canopi coed, sef y mwyafrif llethol o drefi Cymru. Mae ar goed angen gwaith cynnal a chadw sy'n gostus i awdurdodau lleol sy'n brin o arian, ac mae llawer o goed mewn perygl o glefydau – maen nhw'n cael eu torri i lawr rhag ofn y difrod y gallen nhw ei wneud pe baen nhw'n syrthio.



Rhaid inni ddiolch i'n partneriaid arbenigol ar y Pwyllgor Llywio: Cyfoeth Naturiol Cymru, Coed Cadw, y Brifysgol Agored, Open Air Laboratories a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru. Yn awr, wrth i'r prosiect ddod i ben yn swyddogol, mae fy meddwl yn troi at y rhoddion y bydd yn eu gadael ar ôl. I lawer o aelodau, mae wedi eu gwneud yn fwy hyderus ynghylch chwarae rhan weithredol yn eu cymuned, boed trwy amgylcheddaeth neu'r celfyddydau. Mae wedi helpu aelodau sy'n poeni am y newid yn yr hinsawdd i deimlo eu bod yn rhan o'r ateb yn hytrach na'r broblem. Yn lle dim ond siarad amdano, maen nhw wedi cymryd camau ymarferol a phenderfynol ac mae hynny wedi rhoi llawer o foddhad iddyn nhw. Fel y mae aelodau SyM yn ei wneud bob amser, maen nhw wedi gweithredu gydag ymroddiad a brwdfrydedd. Ac nid y diwedd yw hyn mewn gwirionedd. Byddwn ni'n dal i chwilio am ffyrdd ymlaen. Rydym ni mor ffodus gyda'n tirwedd naturiol yng Nghymru a byddwn bob amser yn brwydro i chwarae ein rhan yn y gwaith o'i gwarchod a'i chyfoethogi i'r cenedlaethau sydd i ddod.





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 2 | CYFLWYNIAD |
| 3 | SUT GYMERODD SyM RAN? |
| 4 | CYDGYSYLLTWYR FFEDERASIYNAU |
| 5 | DIWRNODAU HYFFORDDIANT I GYDGYSYLLTWYR FFEDERASIYNAU |
| 6 | Y PROSIECT MEWN FFIGURAU |
| 7 - 22 | ASTUDIAETHAU ACHOS FFEDERASIYNAU |
| 23 - 24 | Y PROSIECT YN Y GYMUNED |
| 25 - 26 | PARTNERIAID Y PROSIECT |
| 27 - 29 | AROLWG O GOED GERDDI A STRYDOEDD |
| 30 - 32 | CANLYNIADAU'R PROSIECT A CHYFRANIADAU GWIRFODDOL |

# Cyflwyniad

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae mwy na 200 o SyM yng Nghymru wedi cymryd rhan weithredol yn y prosiect er mwyn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y goedwig drefol. Mae'r SyM wedi cael eu symbylu i arolygu, arsylwi, cadw a gwarchod coed ac ennyn diddordeb cymunedau mewn gwaith plannu coed a phrosiectau monitro a chynnal a chadw parhaus mewn cysylltiad â sefydliadau fel Coed Cadw, a lledu'r gair am werth coed i'r cyhoedd ehangach. Maen nhw wedi asesu cyflwr ein coed trefol, gan hybu gwaith rheoli, wedi bod yn llygaid a chlustiau i gyrff cyhoeddus ac wedi gweithredu i ddiogelu'r dreftadaeth naturiol hynod werthfawr hon.


Addawodd Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol eu cefnogaeth ar ran y ffederasiynau i gydgysylltu'r prosiect a darparu gwybodaeth a chymorth i SyM a chynorthwyo aelodau gyda'r prosiect. Maen nhw wedi cysylltu â FfCSyM-Cymru ac wedi mynd i Ddiwrnodau Hyfforddiant ac mae gwaith cyffrous wedi cael ei gyflawni gan SyM a ffederasiynau a fydd yn cael ei arddangos ledled yr adroddiad hwn.

Rhyngddyn nhw maen nhw wedi cyflawni mwy nag 80 o weithgareddau yn lleol, oedd yn cynnwys diwrnodau hyfforddiant, digwyddiadau plannu, gweithdai crefft, celf a ffotograffiaeth, teithiau cerdded, sgyrsiau a phartïon 'coed'. Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu gyda mwy na 90 o grwpiau cymunedol.













# Sut gymerodd SyM ran?



Cafodd yr holl SyM y cyfle i gymryd rhan ac roedden nhw'n rhydd i ddewis sut i gyfranogi yn y prosiect.

Mae gwaith cyffrous wedi cael ei gyflawni yn y SyM a'r ffederasiynau. Mae aelodau wedi arolygu mwy na 5,000 o goed, wedi arsylwi arnyn nhw trwy'r tymhorau ac wedi cofnodi eu rhywogaethau a pha greaduriaid sy'n byw arnyn nhw. Maen nhw wedi dathlu eu harddwch trwy wahanol grefftau a gwaith celf, wedi dysgu am y mathau o liwyddion y gallwch eu cael o goed brodorol ac anfrodorol, wedi ymgyrchu i achub coed rhag cael eu cwympo, wedi mynd ar deithiau cerdded tywysedig ac wedi ysgrifennu at gynghorau cymuned ac awdurdodau lleol i holi am eu cynlluniau coed.

Mae coed wedi cael eu gwlânorchuddio, mae arddangosfeydd wedi cael eu cynnal ac mae aelodau wedi gwisgo fel coed mewn carnifalau lleol, wedi cyfansoddi cerddi a dramâu a hyd yn oed wedi cyfansoddi darn o gerddoriaeth a ysbrydolwyd gan goed.

Mae'r prosiect wedi adeiladu ar gryfder cymunedau lleol ac wedi eu cynorthwyo i ddatblygu mentrau ar lawr gwlad sy'n gwella ansawdd bywyd i bobl leol a'u cymunedau. Hyd yma mae aelodau SyM wedi plannu mwy na 6,000 o goed yn eu cymunedau ac wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner fel Rainbows, Brownies a Geidiaid, Sgowtiaid, busnesau lleol, ymddiriedolaethau natur a chamlesi, ysgolion ac ysbytai, lleiandy a llawer mwy.



# Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol

Rhaid inni ddiolch yn arbennig i'r holl Gydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol. Mae pob Cydgysylltydd Ffederasiwn wedi treulio oriau lawer ar y prosiect. Gallai hyn fod wedi cynnwys trefnu'r diwrnod hyfforddiant cyntaf, teithio i gyfarfodydd SyM eraill i hyrwyddo'r prosiect, cyfarfod ag ysgolion i drafod partneriaethau plannu neu fynd i Ddiwrnodau Hyfforddiant i Ffederasiynau ym Mroneirion.

Cafodd pob Cydgysylltydd Ffederasiwn amrywiaeth o adnoddau oddi wrth FfCSyM-Cymru a phartneriaid y prosiect gan gynnwys: Pecyn y Prosiect, Pecynnau OPAL, Canllawiau SyM, Pecynnau Coed Strydoedd, llyfrynnau Coed Cadw, adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru 'Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru' a llyfrynnau gwybodaeth defnyddiol eraill. Hefyd cafodd ffederasiynau grantiau a threuliau o gyllid y prosiect i dalu am unrhyw ddiwrnodau hyfforddiant, costau teithio i Gydgysylltwyr Ffederasiynau a chostau eraill cysylltiedig â'r prosiect.

# Diwrnodau Hyfforddiant i Gydgysylltwyr Ffederasiynau







Cafodd Cydgysylltwyr Ffederasiynau Gwirfoddol eu recriwtio o bob ffederasiwn yng Nghymru. Maen nhw wedi gweithio'n galed i gysylltu â FfCSyM-Cymru a'r aelodau yn eu ffederasiwn i gyflawni'r prosiect. Aeth Cydgysylltwyr Ffederasiynau i 3 diwrnod hyfforddiant i ffederasiynau ym Mroneirion i ddysgu sut i arsylwi ar goed, eu harolygu, eu plannu a'u cofnodi. Yn y diwrnod hyfforddiant cyntaf cyflwynwyd y cydgysylltwyr i'r prosiect a gwrandawyd ar gyflwyniadau oddi wrth holl bartneriaid y prosiect am yr adnoddau a chronfeydd data oedd ar gael iddyn nhw. Roedd partneriaid y prosiect oedd yn bresennol yn cynnwys; John Briggs (Cyfoeth Naturiol Cymru), Clare Morgan (Coed Cadw), Philip Wheeler (y Brifysgol Agored), Iwan Edwards (Ymddiriedolaeth Natur) a Gareth Coles (Celfyddydau Gwirfoddol Cymru).

Wedyn roedd modd i'r Cydgysylltwyr Ffederasiynau roi adborth i'w SyM ar y prosiect a darparu arweiniad ar sut i gymryd rhan. Cafodd Cydgysylltwyr Ffederasiynau hefyd arweiniad hwylus i esbonio eu rôl yn y prosiect a chamau i'w cymryd.

Yn yr ail ddiwrnod hyfforddiant i ffederasiynau daeth Tom Jenkins o Ymchwil Coedwigaeth yng Nghymru i drafod clefydau coed a sut y gall aelodau gofnodi unrhyw glefydau ar wefannau perthnasol. Hefyd esboniodd Russell Horsey orchmynion diogelu coed a chyflawnodd Clare Morgan weithgaredd plannu gyda'r aelodau.

Yn y trydydd diwrnod hyfforddiant i Gydgysylltwyr Ffederasiynau rhoddodd yr aelodau gyflwyniadau ar ran eu ffederasiynau yn y prosiect. Esboniodd Gareth Coles sut y gellir defnyddio celf a chrefft i gofnodi eu rhan yn y prosiect a daeth Tom Jenkins hefyd i drafod coed mewn hinsawdd sy'n newid.

Roedd modd i'r Cydgysylltwyr drafod rhan SyM a hyrwyddwyr coed yn eu ffederasiynau yn y diwrnod hyfforddiant trwy gymryd rhan mewn 'Dangos a Siarad'. Daeth pob Cydgysylltydd Ffederasiwn ag eitemau crefft neu ganlyniadau arolygon yr oedd aelodau wedi'u gwneud fel rhan o'r prosiect. Daeth cynrychiolwyr o Ffederasiwn Powys Maesyfed ag arolwg enghreifftiol yr oedden nhw wedi'i hanfon at yr holl ffederasiynau i gofnodi coed.

# Y Prosiect Mewn Ffigurau

## 13

### Ffederasiynau a Gymerodd Ran

Mae pob un o'r 13 Ffederasiwn yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y prosiect trwy amrywiaeth o ffyrdd.

## 3

### Diwrnodau Hyfforddiant i Ffederasiynau

Cynhaliwyd 3 Diwrnod Hyfforddiant i Ffederasiynau i'r Cydgysylltwyr Ffederasiynau gael adnoddau a gwybodaeth.

## 7

### Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywio

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio gyda phartneriaid y prosiect.

## 210

### SyM a Gymerodd Ran

Cymerodd 210 SyM ran yn y prosiect trwy amrywiaeth o ffyrdd.

## 5

### Ymddangosiadau yn y Cyfryngau

Mae SyM wedi ymddangos mewn adroddiadau mewn papurau newydd, rhaglenni ar S4C a rhaglenni radio ar BBC Radio Wales.

## 5158

### Coed a Arolygwyd

Mae 5,158 o goed wedi cael eu harolygu gan aelodau gan ddefnyddio'r 'Arolwg Coed Gerddi a Strydoedd' ac Arolwg Coed OPAL.

## 80

### Gweithgareddu a Gweithdai

Cynhaliwyd 80 o weithgareddau a gweithdai fel rhan o'r prosiect. Cynhelir rhagor ar ôl diwedd y prosiect.

## 6000

### Coed a Blannwyd

Mae tua 6,000 o goed wedi cael eu plannu gan aelodau fel rhan o'r prosiect.

## 91

### Rhywogaethau Coed a Nodwyd

Mae tua 91 o wahanol rywogaethau o goed wedi cael eu nodi gan aelodau SyM gan ddefnyddio'r 'Arolwg Coed Gerddi a Strydoedd'.



# Astudiaethau Achos Ffederasiynau

## Ffederasiwn Gwent

Mae Cydgysylltwyr Coed yn Ffederasiwn Gwent wedi cymryd rhan yn y prosiect trwy amrywiaeth o weithgareddau. Aethon nhw ati i ddosbarthu pecyn i bob un o'r 56 o SyM er mwyn iddyn nhw gymryd rhan yn y prosiect ac i recriwtio Hyrwyddwyr Coed. Yn gynnar yn y prosiect, cynhaliodd Hyrwyddwyr Coed brynhawn cofnodi ymarferol yng Nghastell Cil-y-coed ac yn ddiweddarach cyfarfuont eto wrth Lyn Cychod Cwmbrân i ganfod, mesur a chofnodi coed ar wefan OPAL a Treezilla. Defnyddiodd y grŵp becynnau'r prosiect a chanllawiau Arolwg Coed OPAL i adnabod gwahanol rywogaethau o goed o gwmpas y castell a'r llyn.

Cafodd yr Hyrwyddwyr Coed gyfle hefyd i gymryd rhan mewn crefftau ac aeth llawer i weithdy gwneud broetsh deilen yn Swyddfeydd Ffederasiwn Gwent.

Hefyd cynhaliodd Ffederasiwn Gwent ddiwrnod celf â thema coed gan ddefnyddio byrddau sgrafellu a'r thema ar gyfer Calendr 2020 Gwent oedd "Coed". Defnyddiwyd ffotograffau a dynnwyd gan aelodau SyM i lunio'r calendr.

Yn ystod 2019, cafodd Hyrwyddwyr Coed Gwent gytundeb i blannu 5 coeden ffrwythau mewn gardd furiog ar diroedd yr ysbyty gofal critigol newydd yn Llanfrechfa, ger Cwmbrân.

Hefyd gweithiodd Hyrwyddwyr Coed gydag Ysgol Cil-y-coed gan drefnu i blannu 50 o goed ar ei safle, yn agos i'r fan lle cynhaliodd yr hyrwyddwyr eu sesiwn cofnodi coed ymarferol cyntaf, a chymerodd aelodau o SyM ran yn y gwaith plannu.



# Ffederasiwn Ynys Môn



Nid yw Hyrwyddwyr Coed Ffederasiwn Ynys Môn wedi bod yn brin o gyfleoedd i gymryd rhan. Mae Cydgysylltwyr y Ffederasiwn wedi cymryd rhan fawr ym mhob agwedd ar y prosiect gan gynnwys: trefnu diwrnodau hyfforddiant, darparu adnoddau arweiniad a chynnal arddangosfeydd crefftau â thema coed.

Aeth Hyrwyddwyr Coed i Ddiwrnod Hyfforddiant yng ngwanwyn 2018 i lansio'r prosiect. Yn bresennol roedd pedwar deg o aelodau ynghyd â Swyddog Diogelu Coed Cyngor Sir Ynys Môn a'r siaradwr gwadd, Iwan Edwards o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.



Yn ddiweddarach yn y prosiect cafwyd newid i grefftau a lluniadu i gofnodi coed. Cynhaliwyd gweithdy lluniadu a pheintio gyda thiwtor a phrofodd hwn mor boblogaidd, fe gynhaliwyd gweithdy arall yn fuan wedyn.



Ni fu un ffordd gonfensiynol o gymryd rhan yn y prosiect. Esboniodd un Hyrwyddwr Coed y mathau o liwyddion y gellir eu defnyddio o goed brodorol ac anfrodorol a daeth ag enghreifftiau i weithdy yn Llanfairpwll.

Roedd mesur a chofnodi data coed yn rhan fawr o'r prosiect hwn. Lluniodd Cydgysylltydd y Ffederasiwn, Yvonne, ganllaw cam wrth gam ar sut i ddefnyddio gwefannau OPAL a Treezilla. Yn ddiweddarach dosbarthwyd y canllaw hwn i'r holl aelodau yng Nghymru y gallai fod arnynt angen cyfarwyddyd ychwanegol ar lanlwytho data. Roedd defnyddio gwefannau lanlwytho data yn beth newydd i lawer o aelodau, ond roedd yn gyfle iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd trwy ddilyn y canllawiau a ddarparwyd.



Roedd rhai Hyrwyddwyr Coed oedd heb yr adnoddau i lanlwytho data i blatfformau ar-lein wedi tynnu ffotograffau o'u ffenestri neu wedi lluniadu coed trwy'r misoedd fel ffordd o gofnodi newidiadau tymhorol. Hefyd lluniodd Cydgysylltydd y Prosiect, Yvonne, a'i gŵr gyflwyniad PowerPoint â mwy nag 80 o dudalennau o wybodaeth a ffotograffau ar gyfer y prosiect. Roedd hwn hefyd ar gael i holl aelodau SyM ei ddefnyddio.

# Ffederasiwn Ynys Môn

Hefyd cafodd Ffederasiwn Ynys Môn rywfaint o sylw yn y cyfryngau. Soniwyd am SyM Bae Trearddur ym mhapur newydd y North Wales Chronicle. I ddathlu nifer gynyddol yr aelodau yn SyM, plannodd Hyrwyddwyr Coed Gerddinen yn yr ardd wrth ochr Neuadd Bentref Bae Trearddur.

Mae Hyrwyddwyr Coed hefyd wedi plannu coed mewn mannau eraill ar Ynys Môn; plannwyd 300 o goed yn Amlwch, plannodd SyM Carreglefn goeden frodorol mewn maes chwarae lleol a phlannodd SyM Afon Menai goeden i ddathlu 10fed pen-blwydd SyM. Plannodd un hyrwyddwr coed 300 o goed ychwanegol ar ei thir. Mae SyM wedi gallu dilyn cyngor oddi wrth Goed Cadw ar gyfer gwaith plannu.

I ddathlu'r prosiect, cynhaliodd Ffederasiwn Ynys Môn arddangosfa crefftau yn Neuadd y Dref, Llangefni. Cafodd yr arddangosfa ei hagor gan Albert Owen, y cyn Aelod Seneddol dros Ynys Môn, ac roedd Mrs Margaret Thomas, Maer Llangefni, hefyd yn bresennol. Roedd gan bob SyM ei ffordd ei hun o gymryd rhan yn y prosiect a chafodd hyn ei gynrychioli yn yr arddangosfa. Roedd modd i SyM roi eu gwedd eu hunain ar eu harddangosfeydd i gynrychioli eu rhan nhw. Roedd yr arddangosfa ar agor i'r cyhoedd, felly roedd yn gyfle i arddangos gwybodaeth a chrefftau a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect. Helpodd hyn i hyrwyddo'r prosiect yn y gymuned ehangach ac i ledu'r gair am bwysigrwydd y dreftadaeth naturiol.

Er bod y rhan fwyaf o SyM yn arddangos llawer o eitemau crefft a wnaethpwyd yn eu cyfarfodydd penodol ar y prosiect, roedd rhai hefyd wedi ysgrifennu adroddiadau ar glefydau coed a sut y gall Hyrwyddwyr Coed helpu i'w hatal rhag lledu. Daeth rhai Hyrwyddwyr Coed â ffotograffau a chanllawiau arolygu maen nhw wedi'u defnyddio i adnabod rhywogaethau coed. Daeth Hyrwyddwyr Coed eraill â barddoniaeth a ysbrydolwyd gan goed a llenyddiaeth oedd yn annog aelodau i gymryd rhan yn y prosiect gan ddefnyddio sgiliau eraill nad oedden nhw mor ymestynnol yn gorfforol.



North Wales CHRONICLE

News

12th November ...

## Island WI group branches out to plant tree at Trearrdur Bay village hall

By Dale Spridgeon

Members of the Trearddur Bay WI are pictured with the chairman of Anglesey Federation of Women's Institutes Yvonne Tatam and Eric Roberts and Paul Norris from the Trearddur Bay Village Hall committee.

0 comment

**ANGLESEY WI members are branching out in more ways than one.**

As part of the Natural Heritage Tree Project to preserve protect and plant urban trees members of Trearddur Bay WI planted a rowan.

The tree, which is already growing, has been planted in the side garden area of the Trearddur Bay Village Hall where the group meets on the first

CARLTON BLINDS
QUALITY BLINDS FOR ALL BUDGETS
• Privacy Woods • Wood Venetian
• Rigid Vertical • Velux • Verticals
Click here for more info

Most read

1 Government unveils coronavirus battleplan: Full details

2 UK's first unmanned aerial vehicle (UAV) search and rescue trials at Caernarfon

3 Gwynedd footballer Gosset rings the bell to signal end of cancer treatment

4 Ryanair is latest airline to cancel flights over Coronavirus







# Ffederasiwn Powys Maldwyn



Cafodd y prosiect ei lansio yn Ffederasiwn Powys Maldwyn wrth i fwy na 60 o aelodau fynd i ddigwyddiad diwrnod ar Wenyn a Choed. Cymerodd Hyrwyddwyr Coed ran mewn ymweliad â choetir, gan adnabod coed ac edrych ar y cedrwydd cochion ysblennydd yn Nhre'r-llai. Hefyd cymerodd hyrwyddwyr coed ran mewn cwis coed a gweithgaredd adnabod dail.



Cymerodd 13 SyM ran yn y prosiect ym Mhowys Maldwyn a phlannwyd 23 coeden o wahanol fathau.

Mae Hyrwyddwyr Coed hefyd wedi cysylltu â grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol. Maen nhw wedi cysylltu â thirfeddianwyr i gael caniatâd i blannu'r coed. Ymgynghorodd Hyrwyddwyr Coed â chynghorau'r Drenewydd a'r Trallwng yn ogystal â chynghorau eraill a chanolfannau cymunedol neu neuaddau pentref lleol.



Hefyd tynnodd Hyrwyddwyr Coed sylw at bwysigrwydd Derwen Brimmon wrth ochr Ffordd Osgoi'r Drenewydd. Roedd y dderwen dan fygythiad gan waith adeiladu'r ffordd osgoi newydd ond cafodd ei hachub a chafodd llwybr y ffordd osgoi ei newid. Credir bod y dderwen hynafol yn fwy na 500 o flynyddoedd oed.





# Ffederasiwn Clwyd Fflint







Mae Cydgysylltydd Ffederasiwn Clwyd Fflint wedi bod yn weithgar iawn yn y prosiect ac wedi darparu llawer o gyfleoedd i'r aelodau gymryd rhan. Cydweithiodd yr Hyrwyddwyr Coed i blannu mwy nag 850 o goed yn y ffederasiwn! Mae Cydgysylltydd Coed Clwyd Fflint wedi tyfu coed o hadau ac wedi gallu cyflenwi tua 40 o goed i aelodau SyM, gan gynnwys coed ifanc derw coesynnog, llwyfenni llydanddail a masarn Norwy.

Hefyd cynorthwyodd aelodau Gyngor Sir y Fflint i blannu perth newydd a choed lliwefr ym mis Mawrth 2019. Cynhaliwyd rhaglenni plannu a gweithdai eraill ym Mrychdyn a Saltney a hefyd ar Flaendraeth Bagillt a Glofa Bettisfield.

Mae mwy na deg SyM wedi cymryd rhan yn y prosiect o Ffederasiwn Clwyd Fflint, aeth 36 o aelodau i'r Parti Coed ym mis Tachwedd 2018 a chymerodd aelodau ran mewn cwis adnabod dail gan fwynhau lluniaeth a byrbrydau â thema coed.

Yn ddiweddarach yn y prosiect, cynhaliwyd dau weithdy arall ar gyfer y prosiect ac mae Hyrwyddwyr Coed wedi bod yn weithgar yn y gymuned. Rhoddodd Cydgysylltydd y Ffederasiwn, Joan, gyflwyniad yng Nghyfarfod Blynyddol Clwyd Fflint am y prosiect coed er mwyn ennyn diddordeb newydd.

Roedd Cydgysylltydd y Ffederasiwn, Joan, hefyd yn bresennol yn Sioe Dinbych a Fflint i gynrychioli'r prosiect. Dosbarthodd goed ifanc i blant a ymwelodd â phabell SyM. Yn ddiweddarach yn 2019 trefnwyd taith cerdded llesiant fel rhan o'r prosiect ac roedd modd i Hyrwyddwyr Coed fynd adref â choed treftadaeth o Gymru i gartrefi aelodau SyM. Wedyn cafodd aelodau eu hannog i ddefnyddio unrhyw flagur a dociwyd ar gyfer impio. Yn ffodus, roedd John Purchase wedi dangos i aelodau sut i ddefnyddio technegau impio ar goed mewn cyfarfod blaenorol yn y gwanwyn.

Mae Hyrwyddwyr Coed Clwyd Fflint hefyd wedi bod yn weithgar yn y gymuned leol ac wrth feithrin cysylltiadau. Cymerodd Swyddog Coed Sir y Fflint ran mewn dau ddiwrnod hyfforddiant ac roedd hefyd yn siaradwr yn y Parti Coed yn 2018. Hefyd cydgysylltwyd digwyddiad plannu yn yr Wyddgrug trwy Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a chyfrannodd yr Ymddiriedolaeth i Ddiwrnod Hyfforddiant Perllannau y Ffederasiwn ym mis Mawrth 2019 mewn cydweithrediad â Choed Cadw, gan ganolbwyntio ar goed ffrwythau treftadaeth o Gymru a thechnegau impio. Roedd Hyrwyddwyr Coed hefyd yn gweithio gyda grŵp lleol Cyfeillion Blaendraeth Bagillt ar gyfer y digwyddiadau plannu yn Hydref 2019. Cafwyd cysylltiad a chefnogaeth hefyd oddi wrth y Cyngor Cymuned, Cynghorydd Sir ac Aelod Seneddol i geisio sicrhau cae 1.3 erw ar gyfer perllan gymunedol.

Mae Hyrwyddwyr Coed a Chydgysylltydd Ffederasiwn Clwyd Fflint wedi creu effaith barhaol o'r prosiect coed ac wedi darparu cysylltiadau ardderchog yn y gymuned leol!

# Ffederasiwn Sir Benfro

Mae Ffederasiwn Sir Benfro wedi ysgogi aelodau i arolygu coed yn eu cymunedau a phwysigrwydd cadw coed.



Lansiodd Hyrwyddwyr Coed Sir Benfro y prosiect mewn gweithdy haf. Cafodd deg SyM eu cynrychioli wrth i 46 o aelodau ddod i ddysgu am adnabod coed gan ddefnyddio pecynnau arolwg OPAL, rhwbiadau rhisgl a defnyddio celf a chrefft i gofnodi coed.



Hefyd defnyddiodd Hyrwyddwyr Coed faneri bach a chanfas ar gyfer arddangosfa yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor. Y ffocws oedd pwysigrwydd coed.

Mae Hyrwyddwyr Coed wedi cysylltu â'u cymuned ac awdurdod lleol i ledu'r gair am y prosiect. Cyfarfuont â'r Swyddog Coed o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.



Gweithiodd Hyrwyddwyr Coed gyda'r Swyddog Coed i ganfod dau safle posibl iddyn nhw blannu perllannau cymunedol. Cymerodd SyM lleol ran yn hyn hefyd.

Cysylltodd Hyrwyddwyr Coed â Chynghorau Tref Aberdaugleddau a Hwlffordd a threfnwyd cyfarfod ag un o'r Cynghorwyr Tref o Hwlffordd a chynrychiolydd o elusen leol. Mae'r elusen yn bwriadu plannu coed coffa ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Tref ac felly bydd aelodau o SyM hefyd yn cydweithio i helpu'r prosiect hwn.

Tra roedd aelodau wrthi'n ymgysylltu â'r gymuned leol, mae aelodau eraill wedi bod yn cofnodi a lanlwytho gwybodaeth i wefan OPAL. Mae aelodau eraill wedi bod yn ymwneud â chwrs golff a chartref gofal lleol ar gyfer plannu coed.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Hyrwyddwyr Coed yn gweithio gydag Ysbyty Llwyn Helyg yn Hwlffordd i ddatblygu gardd llesiant.

# Ffederasiwn Morgannwg



Ym mis Mai 2018, trefnodd Cydgysylltwyr y Ffederasiwn Ddiwrnod Hyfforddiant i Hyrwyddwyr Coed yn Ffederasiwn Morgannwg i lansio'r prosiect. Daeth Lizzie Stonhold o Linellau Arfordirol Cymru yno i ddangos i'r aelodau sut y gallan nhw ddefnyddio dulliau crefft a lluniadu i gofnodi eu coed ac i gymryd rhan yn y prosiect. Daeth Vicki Worsley, gwirfoddolwr gyda Choed Cadw, yno hefyd i holi'r aelodau am rywogaethau coed. Cafodd mwy na 25 o SyM o Ffederasiwn Morgannwg eu cynrychioli yn y diwrnod hyfforddiant.

Wedyn aeth SyM ymlaen i gysylltu â'u cynghorau ac awdurdodau lleol i roi diweddariad iddynt ar y prosiect. Mae SyM Bryncoch yn arbennig wedi bod mewn cysylltiad â grwpiau cymunedol ac ysgol leol. Adroddodd dau Gydgysylltydd y Ffederasiwn i'w cynghorau yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe am y prosiect.

Yng Ngwanwyn 2020, roedd Ffederasiwn Morgannwg yn dal i ymwneud â phlannu coed. Cynhaliwyd tri phrosiect plannu coed yng Ngardd Gymunedol Abertawe – Clydach, Seaview Green Space Group a Vetch Community Garden. Roedd Hyrwyddwyr Coed hefyd yn gweithio gydag ysgol gynradd leol ym Mlaengwrach i blannu 4 coeden geirios mewn cae ysgol.

Hefyd mae Hyrwyddwr Coed o SyM Llangrallo wedi bod yn plannu a chofnodi coed yn ei gardd.





# Ffederasiwn Clwyd Dinbych









Mae SyM Ysbyty Ifan yng Nghlwyd Dinbych wedi bod yn weithgar iawn gyda'r prosiect ac yn cysylltu â grwpiau cymunedol lleol. Gweithiodd SyM Ysbyty Ifan gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i blannu derwen 6 throedfedd gyda phlant ysgol ac aelodau o'r gymuned leol.

Mae Cydgysylltwyr Ffederasiwn Clwyd Dinbych wedi trefnu teithiau cerdded penodol i ganfod a chofnodi coed yng Ngerddi Bodnant ac Eglwys Bach. Maen nhw hefyd wedi ymwneud â theithiau cerdded tywysedig ym Mhwllglas gydag Iwan Edwards o S4C i drafod gwahanol rywogaethau coed. Mae Hyrwyddwyr Coed wedi bod yn defnyddio eu pecynnau arolwg OPAL ar y teithiau cerdded hyn i ganfod a chofnodi coed.

At hynny ymddangosodd SyM Ysbyty Ifan ar Heno, rhaglen deledu ar S4C i drafod eu rhan yn y prosiect. Hefyd dangosasant y goeden roedden nhw wedi'i henwebu ar gyfer cystadleuaeth Coed Cadw, Coeden y Flwyddyn. Cawsant £500 am enwebu coeden.

Yn ddiweddarach yn haf 2019, cyfarfu aelodau yn Nrysfa Dyffryn Conwy ar gyfer taith gerdded dywysedig. Roedd teithiau cerdded tywysedig yng Nghlwyd Dinbych yn boblogaidd ymysg yr aelodau a hefyd yn galluogi cydgysylltwyr i gynnwys ffordd wahanol o gael aelodau i gymryd rhan yn y prosiect.

Hefyd mae SyM Llai wedi plannu coed fel rhan o'r prosiect. Gweithiodd aelodau gydag Eglwys Blwyf Sant Martin o Tours, Llai, i blannu coeden yn y fynwent. Cymerodd dwy o aelodau hynaf y sefydliad ran.